OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1554 (Cy.152)

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *11 Mehefin 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *9 Gorffennaf 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu mewn perthynas â Chymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1) ac (1A)(e) a 36 o Ddeddf Amrywiaethau Planhigion a Hadau 1964(**1**), ar ôl ymgynghori yn unol â'r adran 16(1) honno â chynrychiolwyr buddiannau o'r fath y mae'n ymddangos iddo eu bod yn berthnasol, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Teitl, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) 2002, maent yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 9 Gorffennaf 2002.

### Diwygio

**2.**—(1) Caiff Rheoliadau Hadau (Ffioedd) 1985(**2**) eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2 diwygir y diffiniad o "the Minister"—

(a) drwy fewnosod yn union ar ôl "Food" y geiriau "in relation to Wales the National Assembly for Wales"; a

(b) drwy ddileu'r geiriau "or Wales".

(3) Ym mharagraff A (Ffioedd cychwynnol) o Atodlen 2—

(a) yn is-baragraff (ii) yn lle'r geiriau "(except field beans and field peas)" rhoddir y geiriau "(except field beans, field peas, white lupin, narrow-leaved lupin (blue lupin), yellow lupin, Hungarian vetch, common vetch, hairy vetch and lucerne)"; a

(b) ar ôl is-baragraff (iii) mewnosodir y geiriad canlynol—

(**1**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16 gan Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68), adran 4(1) ac Atodlen 4, paragraffau 5(1), (2) a (3); gweler adran 38(1) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1978/272) am ddiffiniad o "the Minister"; trosglwyddwyd swyddogaethau y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Amrywiaethau Planhigion a Hadau 1964, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272); ac o dan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, fe drosglwyddwyd y swyddogaethau hyn, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**2**) O.S. 1985/981; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1990/610, 1999/1553, 1999/1865 a 2001/2533 (Cy.210).

| | |
|---|---|
| "(iv) certified seed of the first generation of white lupin, narrow-leaved lupin (blue lupin), yellow lupin, Hungarian vetch, common vetch, hairy vetch and lucerne. | 9.10 (—)". |

(4) Ym mharagraff B (Ffi archwilio cnydau) o Atodlen 2—

(a) yn lle'r geiriau "(except field beans and field peas)" rhoddir y geiriau "(except field beans, field peas, white lupin, narrow-leaved lupin (blue lupin), yellow lupin, Hungarian vetch, common vetch, hairy vetch and lucerne)"; a

(b) ar ôl y geiriau "field beans and field peas", yn y lle olaf y maent yn digwydd, rhoddir y geiriau—

"or certified seed of the first generation of white lupin, narrow-leaved lupin (blue lupin), yellow lupin, Hungarian vetch, common vetch, hairy vetch and lucerne".

(5) Ym mharagraff C (Ffi lot hadau) o Atodlen 2—

(a) yn is-baragraff (iii) yn lle'r geiriau "(except field beans and field peas)" rhoddir y geiriau "(except field beans, field peas, white lupin, narrow-leaved lupin (blue lupin), yellow lupin, Hungarian vetch, common vetch, hairy vetch and lucerne)"; a

(b) ar ôl is-baragraff (iv) rhoddir y geiriad canlynol—

| | |
|---|---|
| "(ivA) certified seed of the first generation of white lupin, narrow-leaved lupin (blue lupin), yellow lupin, Hungarian vetch, common vetch, hairy vetch and lucerne. | 66.00 (—)". |

(6) Ym mharagraff D (Ffi ailgyflwyno lot hadau) o Atodlen 2—

(a) yn is-baragraff (ii) yn lle'r geiriau "(except field beans and field peas)" rhoddir y geiriau "(except field beans, field peas, white lupin, narrow-leaved lupin (blue lupin), yellow lupin, Hungarian vetch, common vetch, hairy vetch and lucerne)"; a

(b) ar ôl is-baragraff (iii) rhoddir y geiriad canlynol—

| | |
|---|---|
| "(iiiA) certified seed of the first generation of white lupin, narrow-leaved lupin (blue lupin), yellow lupin, Hungarian vetch, common vetch, hairy vetch and lucerne. | 46.20 (—)". |

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*John Marek*
11 Mehefin 2002 — Dirprwy Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn diwygio Rheoliadau Hadau (Ffioedd) 1985 (fel y'u diwygiwyd). Mae angen y diwygiadau o ganlyniad i Reoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/3665 (Cy.297)) a dynnodd bysedd y blaidd gwynion, bysedd y blaidd dail cul (bysedd y blaidd glas), bysedd y blaidd melyn, ffacbys Hwngaraidd, ffacbys maethol, ffacbys blewog a maglys o'r diffiniad o “Hadau Ardystiedig” yn Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant 1993 a'u cynnwys yn hytrach o fewn y diffiniad o “Hadau Ardystiedig Cenhedlaeth Gyntaf”. Mae angen y diwygiadau er mwyn sicrhau bod y disgrifiadau o gategorïau o hadau y mae ffioedd yn cael eu rhagnodi ar eu cyfer yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau yn adlewyrchu'r newidiadau hyn.